

Ymateb UCAC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft 2015-16

Medi 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Ymateb UCAC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft 2015-2016

1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2014-15 Llywodraeth Cymru?

Os mai un bwriad Cyllideb Derfynol 2014-15 oedd dangos 'y *camau mae'r Llywodraeth yn ei gymryd i ... dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol*', cred UCAC yw nad oedd y buddsoddiad cyffredinol a wnaed mewn addysg yng Nghymru yn ddigonol yng nghyllideb 2014-15 i sicrhau hyn.

Wrth gydnabod y wasgfa sydd ar y Gyllideb, ac yn gwerthfawrogi'r cyhoeddiadau ar ddiogelu cyllidebau ysgol; yr 1% ychwanegol yn flynyddol i'r gyllideb, yn ogystal â'r Grant Amddifadedd Disgyblion, y gwirionedd yw bod cyllidebau ysgolion wedi crebachu'n sylweddol. Mae costau yn cynyddu wrth reswm ac mae unedau fel ysgolion yn cael eu heffeithio'n fawr. Erys amheuan am drosglwyddo ariannol effeithiol gan awdurdodau i ysgolion, er y croesawn yr ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau fod monitro llawn yn digwydd i'r perwyl hwn mewn llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2014 i UCAC.

Y gwirionedd yw nad yw cyllideb 2014-15 yn dyfarnu arian digonol er mwyn sicrhau'r addysg gorau i bawb, beth bynnag eu cefndir yn ysgolion ein gwlad. Gwelwyd effaith mawr ar ysgolion, athrawon a disgyblion wrth gynllunio at Fedi 2014. Mae newid mawr wedi bod o ran y galw am weithwyr yn y sector, a gwelwyd sawl enghraifft o dorri oriau aelodau eleni, a chynnydd yn y niferoedd yn cael eu diswyddo. Mae meintiau dosbarthiadau wedi codi, gan effeithio ar y sylw mae pob disgybl yn ei dderbyn a chyrhaeddiadau gwirioneddol. Yn sgil hyn, rydym eisoes wedi gweld effaith mawr ar lwyth gwaith aelodau. Mae ystod y pynciau sydd yn cael eu darparu mewn ysgolion uwchradd yn lleihau ac mae cwestiynau amlwg ynghylch cynnaladwyedd sawl ysgol ac adnodd.

Mae ariannu ôl-16 i ysgolion yn parhau i beri gofid mawr i UCAC. Mae'r system ariannu yn creu cystadleuaeth afiach o fewn awdurdodau rhwng ysgolion unigol, a heb gymryd i ystyriaeth sefyllfa ddeinamig o ran niferoedd myfyrwyr a llwyddiant ysgolion o gwbl. Yn wir, yn hytrach na sicrhau'r profiad addysgol orau i'n myfyrwyr, profiad sawl aelod yw gweld lleihad yn y ddarpariaeth gwricwlaidd i fyfyrwyr yn Medi 2014, sy'n cael effaith ar lwybr addysgol unigol myfyriwr ac ar ddatblygiad proffesiynol aelodau. Mae cynnaladwyedd Dosbarthiadau Chweched Dosbarth yn y fantol yn hyn o beth a chwestiynir yn aml os mai dileu darpariaeth mewn ysgolion yw'r nod yn y pen draw.

Mae pryder gwirioneddol gan UCAC nad yw anghenion cyffredinol ôl-16 yn cael eu diwallu. Mae hyn yn ofid mawr o ran cludiant a'r bygythiad sylweddol i ddilyniant ieithyddol a ddaw yn sgil toriadau ariannol. Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn codi am gludiant bellach, a chai hyn gryn effaith ar fyfyrwyr nad oes ganddynt ddewis ond teithio ar drafnidiaeth ysgol er mwyn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gofid mawr y byddai hyn yn cyfrannu ymhellach at y nifer o NEETs. Mae UCAC yn galw am gyllid digonol i sicrhau fod cysondeb ar draws Cymru o ran cludiant, ac nad oes gwahaniaethu yn erbyn unrhyw gyfrwng.

Maes arall lle sydd gan UCAC bryderon o ran Cyllideb 2014-15 yw Cymraeg i Oedolion. Lle bu gofidiau ynglŷn â'r 7% o doriad a gyhoeddwyd yn wreiddiol, mae'r toriad o 8% sydd newydd ei gyhoeddi yn siomedig iawn. Mae'r disgwyl i'r toriadau gael eu gweinyddu o fis Medi 2014, a hynny er bod y cyrsiau i gyd yn eu lle a'r recriwtio wedi'i wneud. Eto, ceir effaith mawr ar ddarpariaeth a swyddi a hynny'n mynd yn erbyn polisïau a strategaethau'r Llywodraeth ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae UCAC o'r farn y byddai gwneud cysylltiad cryfach rhwng darpariaeth Cymraeg i Oedolion a chynllunio ieithyddol amrywiol gweithluoedd (addysg, iechyd, gofal plant, gofal cymdeithasol) yn ffordd posib ymlaen yn hyn o beth.

2. Gan edrych ar y dyraniadau cyllideb dangosol ar gyfer 2015-16, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?

3. Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2015-16? Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?

Yn amlwg, gan fod sefyllfa niferodd ysgol yn ddeinamig; mae profiad blaenorol yn dangos bod pwyslais polisiol yn newid yn gyson a'r ffaith fod anghenion a dulliau asesu yn parhau i fod yn annelwig, mae sicrhau ariannu digonol i ymdopi â'r newidiadau hyn yn angenrheidiol. Nid yw'r gyllideb am alluogi i'r Adran Addysg a Sgiliau drawsnewid y sefyllfa bresennol dros nos heb roi gormod o bwysau ar athrawon ac ysgolion. Yn wir, gofynnir a yw'r gyllideb am alluogi i'n hysgolion barhau â'r ddarpariaeth y disgwyliar iddynt ei gynnig, fel y gwelir uchod.

4. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?

O edrych ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth, a safle'r Gymraeg, rydym yn awyddus i dynnu eich sylw at bryderon UCAC ynghylch y Papur Gwyn am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pryderon penodol sy'n deillio o'r diffyg cyfeiriadau at y Gymraeg a'r pryder mai ar Gydlynwyr ADY ysgol y bydd y baich gwaith yn syrthio. Bydd angen buddsoddi i sicrhau lefelau priodol o hyfforddiant, rhyddhau o ddysgu i ymgymryd â'r gwaith (yn enwedig os oes disgwyl gweithio'n rhyngasiantaethol), a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y broses er mwyn lliniaru'r pryderon hyn. Bydd angen cyllido digonol felly, er mwyn sicrhau'r egwyddor sylfaenol a sefydlir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael ei dilyn.

Gwyddom ar hyn o bryd bod diffygion sylweddol iawn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY, a hynny'n aml oherwydd diffyg capasiti/arbenigedd o fewn y gweithluoedd perthnasol. Cred UCAC yn gryf y dylai bod hawl gan unrhyw blentyn, person ifanc a'u teuluoedd i dderbyn y ddarpariaeth a'r gwasanaeth priodol drwy eu dewis iaith - boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Fodd bynnag, mae'r ddadl yn gryfach eto wrth ymdrin â phlant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith nad ydynt eto wedi dod i gysylltiad sylweddol â'r iaith Saesneg, ac sydd i bob pwrpas yn uniaith Gymraeg. Byddai unrhyw asesiad o blentyn uniaith, neu unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn gorfod bod yn y Gymraeg i fod yn ystyrion. Ymhellach, rhaid sicrhau hawl y plant/pobl ifanc a'u teuluoedd i gael trafod Cynllun Datblygu Unigol (CDU); apelio a chydweithio'n aml-asiantaeth yn y Gymraeg. Mae angen i'r rhain fod yn rhagweithiol ac nid yn bethau y mae'n rhaid i deuluoedd fentro i'w fynnu - hyn er mwyn sicrhau darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg (0-25 oed) a sicrhau dilyniant ieithyddol.

Mae UCAC yn gryf iawn o'r farn y dylid rhoi hawl i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar wyneb y Mesur arfaethedig. Bydd angen cyllido er mwyn sicrhau fod unrhyw ddeddf yn rhoi'r sylw dyledus i'r mater allweddol hwn.

Mae gan UCAC bryder sylweddol y bydd y baich o ran llunio a gweithredu CDUau yn cwmpo ar ysgolion, a Chydlynwyr ADY yn arbennig. Mae cwestiynau mawr yn codi ynghylch capasiti ysgolion i allu delio ag anghenion plant a phobl ifanc ag ADY ar hyn o bryd - yn enwedig gyda'r pwyslais ar gynnwys cymaint â phosib ohonynt mewn darpariaeth brif ffrwd. Mae perygl y bydd y sefyllfa'n gwaethygu'n sylweddol gyda'r cynigion hyn, ac mai ar ysgolion y bydd y bai yn cwmpo am unrhyw fethiannau. Hyn o gofio fod cymaint â 103,791 o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ysgolion Cymru.

Bydd angen i'r ystyriaethau uchod fod yn gwbl glir ar wyneb y Mesur, a bod arian yn ei le i sicrhau hyn.

Medi 2014



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com